# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 2 Ionawr, 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Thomas<br>Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Addysg |

### 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor, lle mae'r mesurau perfformiad arni, a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau yn yr Adran.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.3. Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad prosiectau Cynllun y Cyngor, ond yn cydnabod bod elfennau o rai o'r prosiectau hyn yn llithro. Mae rhai meysydd yn cael sylw arbennig gan yr Adran er mwyn gwella perfformiad, a dyma'r meysydd byddaf yn cadw llygad arnynt dros y misoedd nesaf:

- Codi safonau Cyfnod Sylfaen (hyd at 7 oed);
- Sicrhau bod egwyddorion '*Addysg i Bwrpas i Wynedd*' yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn gynted â phosibl;
- Prosiect Bangor - Gweithio ar y 3 opsiwn ffafredig ar gyfer Bangor a'u cyflwyno i'r Cabinet cyn gynted â phosibl;
- Prosiect Campws y Bala;
- Ail-broffilio arbedion ychwanegol ysgolion.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo ail-broffilio gwireddu £263,000 o'r cynllun "*Arbedion Ychwanegol Ysgolion*", oedd i wireddu £4.3m o arbedion yn y cyfnod 2015-16 i 2018-19, trwy lithro £65,000 i'w wireddu yn 2021/2022 a £198,000 i'w wireddu yn 2020-21.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a'n bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r angen i fod yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r disgwyl.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 4.1. P1 Gwella a Chysoni Safonau Addysg – Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4

4.1.1 Pwrpas y prosiect yma yw gwella a chysoni safonau addysg ar draws Gwynedd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau, gan ganolbwyntio ar y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4.

4.1.2 Eleni eto, mae ffigyrau Canlyniadau Haf 2017 yn dangos bod ***86.6% o blant yn cyflawni'r dangosydd cyfnod sylfaen, sef profion yn 7 oed*** sydd yn ganlyniad statig am y drydedd flwyddyn, ac yn ein gosod yn y 15 safle yn Genedlaethol (Cyfartaledd Cenedlaethol – 87.3%)**.** Mae'r ffigwr yma yn llai eto (74%) ar gyfer plant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim (PYD). Mae perfformiad plant PYD wedi bod yn amrywiol dros y blynyddoedd, ond yn dilyn tair blynedd o gynnydd graddol, gwelwyd gostyngiad o 2.5% ar ffigwr 2016. . Mae'n deg dweud mai siomedig ydi'r canlyniadau yma, yn enwedig yng ngoleuni'r canlyniadau Rhanbarthol a Chenedlaethol. Dyfelir y gallai un neu gyfuniad o ffactorau ddylanwadu ar y canlyniadau, ond nid oes tystiolaeth bendant i brofi hynny ar hyn o bryd.

4.1.3 Rwyf eisoes wedi gofyn i'r Adran Addysg i ddadansoddi'r sefyllfa a mynd o dan groen pam nad ydym yn gweld gwelliant hefo'r mesurydd yma. Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd wedi datgan pryder ynglŷn â chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen felly mae'r Adran wedi comisiynu GwE i ystyried y sefyllfa.

4.1.4 Gan fod canlyniadau a pherfformiad yn y Cyfnod Sylfaen yn fater ar draws y Rhanbarth, mae GwE wedi cytuno i ystyried y ffactorau ar draws y Gogledd. Gan fod y briff gwreiddiol wedi'i ymestyn i gynnwys Rhanbarth y Gogledd, rwyf wedi datgan fy mhryder fod hyn yn mynd i gael effaith ar pryd gawn ni'r wybodaeth ar gyfer ysgolion Gwynedd. Rwyf wedi pwysleisio fy mod eisiau gweld adroddiad ar sefyllfa Cyfnod Sylfaen Gwynedd gan GwE cyn gynted â phosibl. Rwyf hefyd yn disgwyl gweld cynllun gwaith clir yn nodi'r ymyraethau tymor byr, canolig a hir sydd eu hangen i daclo'r sefyllfa.

4.1.5 Byddaf yn manylu ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 sef TGAU yn 16 oed yn rhan 5 o'r adroddiad - Mesur Perfformiad.

4.1.6 Er nad yw'r prosiect yma yn canolbwyntio ar ganlyniadau Lefel Ac a'r sefyllfa ol-16 yn y Sir, rwyf wedi pwysleisio fy mod yn disgwyl i'r Adran gyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar y canlyniadau, yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol cyn gynted â phosibl.

### 4.2. P2 Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth

4.2.1 Pwrpas y prosiect yma yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. Byddwn yn gweithredu ar gynigion fydd yn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda'r bwriad o symud tuag at y nod bod penaethiaid ysgolion yn ddigyswllt, hynny yw, nad ydynt yn dysgu plant.

4.2.2 Mae'r gwaith o sgopio opsiynau a'r cyfleoedd i gryfhau arweinyddiaeth yn digwydd ar hyn o bryd, ac mae hyn yn plethu gyda'r gwaith o ymgynghori gydag ysgolion a llywodraethwyr ar egwyddorion '*Addysg i Bwrpas i Wynedd*' a ddigwyddodd ychydig fisoedd yn ôl. Y bwriad yw cyflwyno'r adroddiad i chi ym mis Mawrth 2018.

4.2.3 O ganlyniad i hyn, mae'r prosiect yma wedi canolbwyntio ar hyrwyddo a manteisio ar y rhaglenni cefnogaeth a hyfforddiant a ddarperir ar gyfer penaethiaid a darpar benaethiaid. Mae'r hyfforddiant yma yn cynnwys rhaglenni arweinyddiaeth Genedlaethol (Llywodraeth Cymru) a Rhanbarthol (GwE). Mae nifer o'r penaethiaid wedi cymryd rhan yn y sesiynau hyfforddiant, ac mae 8 darpar arweinydd yn dilyn cwrs CPCP eleni.

4.2.4 Rwyf wedi mynegi fy nymuniad i weld cynllun prosiect clir a threfniadau rheolaeth prosiect gref i'r prosiect yma, fel ein bod yn miniogi'r prosiect a mynd i'r afael a'r her o gryfhau a gwella arweinyddiaeth yn ein hysgolion.

**4.3. Rhaglen Rhwydwaith o Ysgolion Hyfyw i'r Dyfodol**

4.3.1 **P3 Prosiect Bangor**

Pwrpas y prosiect hwn yw adolygu addysg gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu bod wedi neilltuo £6.3m i'w fuddsoddi yn narpariaeth addysg o fewn dalgylch Bangor.

Mae sawl cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r penaethiaid, llywodraethwyr a chynghorwyr yn yr ardal, a chynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Adolygu Dalgylch (PAD). Pwrpas y PAD yw adnabod a thrafod opsiynau gan roi mewnbwn lleol i'r broses o gytuno ar opsiwn ffafredig fydd yn ymateb i anghenion addysg yn yr ardal i'r dyfodol.

Mewn cyfarfod diweddar o'r PAD ym mis Tachwedd, roedd 3 opsiwn ar y bwrdd. Cafodd yr opsiwn ffafredig ei adnabod ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo gyda'r golwg ar gyflwyno'r opsiwn hwnnw i Gabinet ym mis Chwefror. Y cam nesaf yn y broses statudol fydd cynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r esgobaeth briodol yn unol â'r gofynion statudol.

Mae'r Adran wedi nodi llithriad gyda'r cynllun yma gan mai'r bwriad yn wreiddiol oedd adrodd ar yr opsiwn ffafredig ym mis Rhagfyr. Golygai hyn bod yr amserlen yn dynn i weithredu, ond, rwyf wedi cael cadarnhad gan yr Adran nad ydi'r llithriad yma yn cael effaith ar y buddsoddiad ariannol (Llywodraeth Cymru a'r Sector Breifat) sydd wedi'i neilltuo.

Rwyf hefyd wedi gofyn i'r Adran sicrhau bod Aelodau Lleol ac Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn rhan o'r trafodaethau ynglŷn â'r opsiynau. Bydd adroddiad ar yr opsiynau yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu yn ogystal.

4.3.2 **P4 Dalgylch y Gader – Ysgol Bro Idris**

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau. Agorwyd Ysgol Bro Idris yn swyddogol ar 7fed o Fedi, 2017 yn dilyn £4.34 miliwn o wariant cyfalaf. Byddaf yn cadw llygaid ar fesur llwyddiant yr ysgol hon ac yn derbyn adborth ar hyn yn rheolaidd.

4.3.3 **P5 Ysgol Glancegin**

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad o'r newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen, Bangor.

Agorwyd yr adeilad newydd ar gyfer 240 o ddisgyblion (yn cynnwys 30 lle meithrin) ym Maesgeirchen ym mis Medi 2017.

Yn ddiweddar, cymeradwywyd £60,000 o arian Dechrau'n Deg wedi ei ar gyfer lleoli caban ychwanegol i blant oed meithrin er mwyn sicrhau addysg blynyddoedd cynnar ar y stad.

Er hyn, rwyf ar ddeall bod oedi wedi bod wrth drosglwyddo rhai o'r cabannau hyn o safle Dolgellau i Faesgeirchen. Rwyf wedi cael sgwrs gyda'r Adran Eiddo i sicrhau datrysiad buan i hyn er mwyn sicrhau nad ydi hyn yn cael effaith ar addysg plant yr ardal.

4.3.4 **P6 Dalgylch y Berwyn - Campws Dysgu'r Bala**

Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu 3-19 cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn.

Mae'r prosiect yma yn llithro gan mai'r bwriad gwreiddiol oedd agor y Campws yn Medi 2018. Yn dilyn deryn mewnbwn gan benaethiaid, Llywodraethwyr ac Aelodau Lleol y dalgylch, daethpwyd i'r casgliad y byddai agor y campws yn Medi 2019 yn fwy ymarferol. Bydd hyn yn caniatáu amser digonol i ymgymryd â'r gwaith sydd ynghlwm a sefydlu'r ysgol fel endid.

Ar 24 Hydref, cymeradwyodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol i gau Ysgol y Berwyn, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Bro Tegid ar 31 Awst, 2018 a sefydlu'r Campws Dysgu 3-19 ar safle presennol Ysgol y Berwyn ar 1 Medi, 2019. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 10 Ionawr.

Er gwaetha'r llithriad, nid yw hyn yn cael effaith ar amserlen adeiladu a rhagwelir bydd y cyfleusterau newydd ar gael i drigolion lleol o fis Medi 2018. Rwy'n awyddus i'r Adran gael trefniadau clir yn ei lle ar gyfer pwrpasau cymunedol yr ysgol, sef yr elfen Llyfrgell a Hamdden.

Mae'r Adran hefyd yn gweithio'n agos gydag Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn a'u cyrff llywodraethol i sefydlu cynllun pontio ar gyfer ysgolion cynradd y dref.

Mae'r amserlen ar gyfer yr ysgol yn dynn iawn ac oherwydd hynny, byddaf yn cadw llygaid agos ar y prosiect yma yn y misoedd tyngedfennol nesaf.

## 4.4 P7 Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

4.4.1 Pwrpas y prosiect yw trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

4.4.2 Yn unol â'r penderfyniad, bydd Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cael ei weithredu'n llawn o Fedi 2017, a hynny ar y cyd ag Ynys Môn.

4.4.3 Mae'r gwaith o ail-strwythuro'r gwasanaeth bellach wedi dirwyn i ben, ac mae hyn wedi effeithio 126 aelod o staff ar draws y ddau awdurdod a'r Cyd Bwyllgor ADY, a ddaeth i ben ym mis Awst 2017. Mae nifer o swyddi cymhorthyddion gweigion fydd angen eu penodi yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae yna her yn wynebu ysgolion o ran cymhorthyddion gyda'r sgiliau priodol, ac mae'r sefyllfa yn waeth mewn rhai ardaloedd.

4.4.4 Mae'r maes Blynyddoedd Cynnar wedi ei godi fel mater sydd angen sylw yn benodol oherwydd y cynharaf mae'r cyflyrau yma yn cael eu hadnabod, gorau bo gynted i'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth gywir gael ei roi i'r plentyn. Mae hwn yn fater trafodaeth gyda'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a byddwn yn awyddus i'r them yma gael ei weu i'r Strategaeth Cefnogaeth Teulu mae'r Adran yn gweithio arni ar hyn o bryd.

## 4.5. P9 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

4.5.1 Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau dilyniant cadarn ac adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd.

4.5.2 Lluniwyd a mabwysiadwyd strategaeth Iaith Uwchradd. Cafwyd mewnbwn i'r strategaeth hon gan ddysgwyr uwchradd o wahanol gefndiroedd ieithyddol gan gynnwys Cymry cynhenid, dysgwyr rhugl a dysgwyr mwy elfennol. Bwriad y strategaeth yn gosod disgwyliadau ac arweiniad clir i ysgolion uwchradd y sir am dechnegau newid arferion iaith a'r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

4.5.3 Mae pob ysgol wedi llunio hunan-arfarniad a chynllun gweithredu mewn ymateb i'r Strategaeth, ac mae'r cynlluniau hyn yn mynd trwy'r broses her.

4.5.4 Cynhaliwyd #Cymhadledd i gynrychiolwyr o Gyngor Ysgol/Iaith pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd yn ystod yr Hydref. Pwrpas y #Cymhadledd oedd arfogi pobl ifanc i drafod y Gymraeg ac adnabod gweithgareddau y byddent yn awyddus i'w cynnal i hyrwyddo'r Gymraeg ymysg eu cyfoedion.

# 5. MESUR PERFFORMIAD

## 5.1. Mesurau Perfformiad Addysg

5.1.1 Atodaf gopi o fesurau'r adran yn ***Atodiad 1***.

## 5.2. Canlyniadau Haf 2017

5.2.1 **Sector Gynradd:**

**Cyfnod Sylfaen (7 oed)**

Fel rwyf eisoes wedi nodi, o dan brosiect P1, mae'r canlyniadau ar gyfer cyfnod Sylfaen yn siomedig flwyddyn hon ac yn dangos gostyngiad bychan o'i gymharu â 2016. Mae'r tueddiad yn dangos yn glir nad ydym yn gweld unrhyw welliant hefo'r cyfnod yma o'i gymharu â'r cyfnodau allweddol eraill. Mae'r ffigwr yma yn gosod Gwynedd yn safle 15 allan o'r 22 awdurdod, sef safle yn is na llynedd.

Rwyf yn disgwyl adroddiad pellach ar y sefyllfa a beth allwn ni wneud i wella'r canlyniadau.

**Cyfnod Allweddol 2 (hyd at 11 oed)**

Gwelwyd perfformiad da iawn yng Nghyfnod Allweddol 2, gyda chynnydd arwyddocaol o 2.3% ar ganlyniad 2016 sydd wedi gosod Gwynedd yn gyntaf yn Rhanbarth y Gogledd. Mae'r canlyniad cyrhaeddiad plant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim (PYD) yn 85.2% - canlyniad gorau eto. Gwelwyd perfformiad gorau erioed ar draws yr holl bynciau yn ogystal. Dosbarthwyd canllaw asesu i'r holl ysgolion yn Ionawr 2017 ac rwyf yn teimlo fod ymateb yr ysgolion yn y defnydd o hwnnw wedi dylanwadu'n gadarnhaol ac wedi gwella cysondeb.

5.2.2 **Sector Uwchradd:**

**Cyfnod Allweddol 3 (11 – 14 oed)**

Gwelwyd perfformiad cadarn eto eleni, gydag ysgolion Gwynedd ar y brig o blith ysgolion y Rhanbarth ar gyfer y Dangosydd Pynciau Craidd sef y lefel disgwyliedig ar gyfer Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (92.8%).

**Cyfnod Allweddol 4 (14 -16 oed – TGAU)**

Mae perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a chanlyniadau TGAU yn siomedig eleni, gan i ni weld cwymp. Mae'r canlyniadau yma yn adlewyrchu'r cwymp yn Genedlaethol.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n ennill pum gradd TGAU A*-C, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a Mathemateg yn 58.3% yng Ngwynedd eleni. Er bod y ffigwr yma yn is na llynedd (65.9%), mae Gwynedd yn parhau i fod yn y safle 1af yn Rhanbarth y Gogledd, ac yn 5ed ar lefel Genedlaethol, sef oddeutu'r safle disgwyliedig.

Prif reswm am y cwymp yma yw'r newidiadau i'r drefn arholi a'r fanyleb ar gyfer pynciau megis Mathemateg a Saesneg, sydd wedi effeithio'n sylweddol ar ganlyniadau TGAU eleni i Gymru, yn enwedig yn achos graddau A*-C. Mae'n anodd ac annheg felly i gymharu ffigyrau eleni gyda chanlyniadau 2016, gan fod yr amgylchiadau yn wahanol. Rwyf yn siomedig bod y garfan yma o bobl ifanc wedi derbyn canlyniadau yn is na'r disgwyl eleni, a hynny oherwydd amgylchiadau tu allan i'n rheolaeth ni.

Er hyn, mae'r ganran o ddisgyblion sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim sy'n ennill pum gradd TGAU A*-C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a Mathemateg yn 45.4%, o'i gymharu â 26.2% ar lefel Rhanbarth y Gogledd. Mae hyn eto yn adlewyrchu'r pwyslais sy'n cael ei roi ar sicrhau bod pob person ifanc yn llwyddo yn y Sir.

Rwyf eto i dderbyn canlyniadau Plant mewn Gofal ar draws y cyfnodau allweddol. Rwyf wedi pwyso ar yr Adran i sicrhau fy mod yn derbyn y rheiny cyn iddynt gael eu craffu ym Mhanel Rhiant Corfforaethol.

**Lefel A:**

Mae'r sefyllfa gyda chanlyniadau Lefel A hefyd yn galonogol eleni. Mae'r ganran enillodd raddau A*-E ar draws yr holl bynciau (97.3%) yn gynnydd o'i gymharu gyda 2016 (96.2%). Yn ogystal, gwelwyd cynnydd sefydlog yn y ganran enillodd graddau A neu well (25.5%) yn uwch na'r ffigwr ar gyfer Cymru (25.0%), ac mae'n galonogol bod y ganran A*-E yn 100% ar draws y mwyafrif o'r pynciau ac mae hyn yn adlewyrchu'r cyngor a'r cyfarwyddwyd a ddarperir i'n pobl ifanc.

5.2.3 **Presenoldeb & Gwaharddiadau:**

Er bod y ffigyrau yma yn ddata rheolaeth i bob pwrpas, rwy'n awyddus i'w rhannu gyda chi gan fod yna gyswllt clir rhwng lefelau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc a'u presenoldeb yn yr ysgol.

Mae'r canran presenoldeb ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn rhagorol sy'n ein gosod ymysg yr uchaf yng Nghymru. Er hyn, rwy'n ymwybodol bod yna bocedi yn y Sir lle mae presenoldeb yn her ac rwyf am i'r Adran dargedu'r ysgolion hynny.

Rwyf hefyd yn falch o nodi nad oedd unrhyw waharddiad yn ein hysgolion yn ystod y flwyddyn.

5.2.4 **Data Categoreiddio ac Arolygiadau:**

Atodaf gopi o ddata categoreiddio ac arolygiadau yn ***Atodiad 2***. Y prif fater rwyf am ei godi gyda chi yw'r sefyllfa ddiweddaraf gydag Ysgol Rhosgadfan a gafodd ei roi i fesur arbennig gan Estyn ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Adran wedi cadarnhau bod camau breision wedi'i gymryd i wella'r ysgol, gyda gwella yn strwythur rheolaethol a llywodraethwyr. Bydd angen trafodaeth ynglŷn ag opsiynau arweinyddiaeth tymor hir i'r ysgol.

**6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL**

6.1. Rhagwelir bydd £358,816 (86%) o arbedion Adran Addysg y flwyddyn 2017/18 wedi eu gwireddu yn amserol, gyda £58,300 o'r un cynllun sy'n weddill elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast yn llithro i 2018/19 yn dilyn oedi gweithredu. Bydd yr Adran yn pontio'r diffyg yma hyd 2018/19, ynghyd a £38,681 o'r cynllun "Ffordd Gwynedd – Uned Gyflogau a Chontractau" sydd wedi llithro o 2016/17 wedi i'r nod gwreiddiol gael ei ehangu.

6.2. Bellach, mae £3,738,010 wedi ei wireddu o'r cynllun "Arbedion Effeithiolrwydd Ysgolion" oedd i arbed £4.3m yn y cyfnod 2015/16 i 2018/19. Mae'r Cabinet eisoes wedi cytuno i bontio £298,990 o'r cynllun hyd 2019/20, pryd rhagwelir gellid gwireddu'r swm yma. Hefyd, mae'r oedi gyda sefydlu ysgol newydd yn y Bala yn golygu na fydd modd gwireddu'r £65,000 arbediad sy'n deillio o'r datblygiad hyd 2021/22. Ymhellach, bydd oedi cyn gellid gwireddu arbedion eraill gwerth £198,000. Yng nghyd-destun cwtogiad sylweddol mewn grantiau penodol Llywodraeth Cymru i ysgolion yn 2018/19, byddai'n anodd cwtogi'r cwantwm ysgolion eleni er mwyn gwneud yn iawn am y diffyg arbediad.

6.3. Felly, gofynnaf i'r Cabinet gymeradwyo ail-broffilio £65,000 o arbedion y Bala i 2021/22, a'r £198,000 sy'n weddill i 2020/21 er mwyn rhoi amser i'r Adran ddatblygu eu syniadau i wireddu'r arbediad yma.

6.4. Ar y cyfan, nid wyf yn rhagweld problem mewn gwireddu gweddill y cynlluniau arbedion ar gyfer 2018/19.

**7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**7.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o ran priodoldeb."

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

" Cadarnhaf fod y sylwadau yn rhan 6 o'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa Addysg / Ysgolion o ran gwireddu'r arbedion.

Yn yr amgylchiadau (Llywodraeth Cymru am gwtogi grantiau penodol i ysgolion erbyn 2018/19), gyda chymeradwyaeth y Cabinet i'r argymhelliad sy'n rhan 2.1 o'r adroddiad ynghylch rhan o'r arbedion £4.3m ysgolion, byddaf yn ail-broffilio £263,000 o arbedion 2018/19 yn Strategaeth Ariannol y Cyngor (£65,000 i'w wireddu yn 2021/22 a £198,000 i'w wireddu yn 2020/21).

Nodaf hefyd fod rhan 4.3 o'r adroddiad yn cyfeirio at gynnydd gyda rhai o brif gynlluniau cyfalaf y Cyngor, sef datblygiadau 'Ysgolion yr 21ain Ganrif' sy'n gyfredol ar gyfer Dalgylch y Gader, Dalgylch y Berwyn, Ysgol Glancegin, ac Ysgolion Bangor."

**7.2. Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

**7.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

7.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Mesurau Adran Addysg |
| **Atodiad 2** | Data Arolygiadau Ysgolion & Data Categoreiddio |

**Dogfennau Cefndirol:**

Dim.